# Dyddio Eglwysi Canoloesol yng Nghymru

# Dating Medieval Churches in Wales

Fel rhan o'n Rhaglen Genedlaethol ni o Ddyddio Blwyddgylchau, mae'r Comisiwn Brenhinol wrthi'n dyddio amrywiaeth o eglwysi canoloesol. Tipyn o gamp yw dyddio eglwysi am ei bod hi'n anodd cael at eu toeon, ac oherwydd eu mireinder maent yn aml wedi colli'r nodd y mae ei angen i'w dyddio'n fanwl-gywir. Yn aml, bydd cynlluniau lleol i adfer eglwysi yn gyfle i'w dyddio'n llwyddiannus mewn partneriaeth.

As part of our National Tree-ring Dating Programme, the Royal Commission is dating a range of medieval churches. Churches are challenging to date because their roof timbers are difficult to access and, due to their refinement, they have often lost the sap-wood necessary for a precise felling date. Local church restoration schemes often provide the opportunity for successful partnership dating.




Chwith: Tu mewn eglwys Sant Gwyddelan, Dolwyddelan, Sir Gaernarfon, gan ddangos y to sydd wedi'i ddyddio i 1471-1501. Bu Maredudd ap Ieuan yn byw yng Nghastell Dolwyddelan ym 1489 ymlaen a chododd eglwys newydd i'r plwyf ar safle gwahanol rhag i'w elynion geisio'i gipio. Masg sydd wedi'i gysylltu â tho'r gangell.

Left: Interior of St Gwyddelan's Church, Caernarfonshire showing the roof dated between 1471-1501. Maredudd ap Ieuan acquired Dolwyddelan Castle in 1489, and famously rebuilt the parish church on a new site so that he would not be ambushed by his enemies. Mask attached to the chancel roof.




Chwith: Eglwys Llaneilian-yn-Rhos, Sir Ddinbych. Mae paneli paentiedig wedi goroesi o rannau o'r groglen, a dyddiwyd y blwyddgylchau ynddynt i 1498-1528.

Left: Llanelian-yn-rhos Church, Denbighshire. Painted panels survive from the fragmentary rood-screen, tree-ring dated between 1498-1528.

Isod: Eglwys Sant Padarn, Llanbadarn Fawr, Ceredigion. Mae to cudd y gangell (chwith) wedi'i ddyddio'n fanwl-gywir i 1491. Dyma'r to hynaf sy'n hysbys yng Ngheredigion.

Below: St Padarn's Church, Llanbadarn Fawr, Ceredigion. The hidden chancel roof (left) has been precisely dated 1491. It is the oldest known roof in Ceredigion.




Chwith: Eglwys Sant Niclas, y Grysmwnt, Sir Fynwy. Llun o ganol yr eglwys sy'n dangos y to cynharaf yn eglwys unrhyw blwyf yng Nghymru. Fe'i codwyd o goed a gwympwyd rhwng 1214 a 1244. Mae'n debyg i'r to gael ei godi ym 1227 pan roddodd Harri III 50 o goed derw i arglwydd y Grysmwnt i godi adeiladau, gan gynnwys yr eglwys newydd yn ôl pob tebyg. Fe'i dyddiwyd gyda chymorth y Village Alive Trust.

Left: St Nicholas, Grosmont, Monmouthshire. View of the nave showing the earliest dated parish church roof in Wales built from timber felled between 1214-44. The roof was probably constructed in 1227 when Henry III granted the lord of Grosmont 50 oaks for his buildings, which probably included the new church. Dated with the assistance of The Village Alive Trust.




Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
*Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru*

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
*National Monuments Record of Wales*

Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ

*Ffôn/ Telephone:* 01970 621200

www.cbhc.gov.uk / www.rcahmw.gov.uk